



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2020

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar 16 Hydref 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 19 Tachwedd 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ar 03 Tachwedd 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

